


## ADRAN A

1. Sawl triongl sydd yn y siâp hwn?




- a) 16      b) 17      c) 23      ch) 26      d) 27

2. Taldra Elwyn yw 90cm plws hanner ei daldra. Pa mor dal yw Elwyn?


- a) 45cm      b) 90cm      c) 135cm      ch) 180cm      d) 215cm

3. Sawl llwybr gwahanol sydd i fynd o A i B?



- a) 6      b) 8      c) 10      ch) 12      d) 14

4.




Pa rif ddylai fod o dan y golofn olaf?

- a) 55                      b) 60                      c) 65                      ch) 70                      d) 75

5. Mae gan ffermwr ddigon o fwyd i 40 ceffyl am 6 diwrnod. Mae 10 o'r ceffylau yn cael eu gwerthu. Am sawl diwrnod y gall y ffermwr fwydo'r ceffylau sydd ganddo ar ôl?

- a)  $4\frac{1}{2}$                       b) 8                      c) 9                      ch) 12                      d) 24

6. Mae'r siâp hwn wedi'i lunio o dri phetryal, yn mesur 3cm wrth 1cm yr un. Faint yw perimedr y siâp?



- a) 16cm                      b) 18cm                      c) 20cm                      ch) 24cm  
d) mae angen mwy o wybodaeth

7. Mae Jen yn hedfan o Gaerdydd i Efrog Newydd. Mae'r daith yn cymryd 8 awr. Mae'n cychwyn am 9 o'r gloch yr hwyr (GMT). Am ddau o'r gloch y bore (amser Caerdydd) mae'r clociau'n symud awr ymlaen oherwydd newid o amser GMT i amser yr haf ym Mhrydain. Mae amser Efrog Newydd 5 awr cyn amser GMT. Faint o'r gloch yw hi yn Efrog Newydd pan fydd yr awyren yn glanio?

- a) 2 o'r gloch y bore                      b) 3 o'r gloch y bore                      c) 5 o'r gloch y bore  
ch) 10 o'r gloch y bore                      d) hanner nos

8. Mewn cynghrair pêl-droed mae tîm yn cael 3 phwynt am ennill, 1 am gêm gyfartal a 0 am golli. Mae Brynchrug wedi chwarae 12 gêm yn y gynghrair ac wedi ennill 13 pwynt. Faint yw'r nifer lleiaf posibl o gemau y gallant fod wedi'u colli?

- a) 0      b) 1      c) 2      ch) 3      d) 4

9. Pwysau bwced llawn dŵr yw 21kg. Pwysau'r bwced pan fo'n hanner llawn dŵr yw 12kg. Faint yw pwysau'r bwced pan fo'n wag?

- a) 1kg      b) 2kg      c) 3kg      ch) 4kg      d) 5kg

10. Mae modd rhoi pedwar o'r siapiau hyn at ei gilydd i lunio ciwb. Pa siâp na chaiff ei ddefnyddio?




- A      B      C      Ch      D

- a) A      b) B      c) C      ch) Ch      d) D



2



Yn y llun hwn mae 4 llinell a 3 rhanbarth.

Mae  $4 \times 3 = 12$ .

Gallwn ddweud fod y llun yn enghraifft o “siâp 12”.

Ceisiwch lunio “siapiau 12” eraill. Sawl un sydd?

Arbofwch gyda siapiau â rhifau gwahanol a nodwch eich canlyniadau fan hyn.